Papurau Pwyllgor
Cynghori ar Fwyd Cymru

Cyfarfod Agored

14 Mehefin 2018

**Cyfarfod Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru**
**14 Mehefin 2018**

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW**

**Agenda**
**Cyfarfod Agored**

| | |
|---|---|
| Cofrestru a phaned | 09:15 – 09:25 |
| Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau | 09:25 – 09:30 |

**<u>Paratoi ar gyfer eitemau i'w trafod gan y Bwrdd</u>**

| | |
|---|---|
| Datblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd<br>Papur FSAW 18/06/04 | 09:30 – 09:50 |
| Rheolaethau llaeth yfed amrwd<br>Papur FSAW 18/06/05 | 09:50 – 10:30 |
| Adolygiad o ffatrïoedd torri a storfeydd oer<br>Papur FSAW 18/06/06 | 10:30 – 11:10 |
| Egwyl | 11:10 – 11:20 |
| Adroddiad canol y rhaglen – Rheoleiddio Ein Dyfodol<br>Papur FSAW 18/06/07 | 11:20 – 11:40 |
| Strategaeth Ryngwladol yr Asiantaeth Safonau Bwyd<br>Papur FSAW 18/06/08 | 11:40 - 12:00 |
| Adroddiad yr Adolygiad o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd<br>Papur FSAW 18/06/09 | 12:00 – 12:20 |

**<u>Materion y pwyllgor</u>**

| | |
|---|---|
| Y cyfarfod agored diwethaf a materion sy'n codi<br>Papur FSAW 18/03/01 | 12:20 – 12:30 |
| Adroddiad gan y Cadeirydd<br>Papur FSAW 18/03/02 | 12:30 – 12:40 |
| Diweddariad gan y Cyfarwyddwr<br>Papur FSAW 18/03/03 | 12:40 – 12:50 |
| Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor | 12:50 – 13:00 |

**<u>Sesiwn holi ac ateb gyffredinol</u>** 13:00 – 13:05

Unrhyw fater arall 13:05

Diwedd y cyfarfod agored 13:10

**<u>Papurau i'w nodi – ar gael i'w gweld drwy www.food.gov.uk</u>**

Amserlen o Gyfarfodydd y Pwyllgor

Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau

Bywgraffiadau Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC)

**FSAW 18/06/04**
**I'w drafod**

**Datblygiad yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd a'r penderfyniad i barhau i Gam 2**

**Crynodeb Gweithredol**

1.1 Mae'r papur atodol, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 20 Mehefin, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cynlluniau i ddatblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd i fod â galluoedd gweithredol o ddechrau'r broses i'r diwedd (Cam 2) fel y trafodwyd gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2017. Mae hyn yn dilyn cymeradwyo cyllid gan Drysorlys EM wedi i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) gyflwyno achos busnes ddechrau mis Mai a gymeradwywyd gan is-grŵp y Bwrdd ar 18 Ebrill.

1.2 Bydd Andy Morling yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

1.3 Gwahoddir aelodau i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae’r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-06-09) yn:
https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018 (Saesneg yn unig)

**FSAW 18/06/05**
**I'w drafod**

**Rheolaethau Llaeth Yfed Amrwd**

**Crynodeb Gweithredol**

1.1 Mae'r papur atodol, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 20 Mehefin, yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion o'r adolygiad o reolaethau swyddogol ar gyfer Llaeth Yfed Amrwd.

1.2 Bydd Michael Wight yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

1.3 Gwahoddir aelodau i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae’r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-06-07) yn:
https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018 (Saesneg yn unig)

**FSAW 18/06/06**
**I'w drafod**

**Adolygiad o ffatrïoedd torri a storfeydd oer (diweddariad dros dro)**

**Crynodeb Gweithredol**

1.1 Mae'r papur atodol, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 20 Mehefin, yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn eu hadolygiad o ffatrïoedd torri a storfeydd oer ar draws y Deyrnas Unedig (DU), yn sgil achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn ffatrïoedd torri amrywiol. Mae'r papur hefyd yn tynnu sylw at feysydd o flaenoriaeth lle bydd yr adolygiad yn canolbwyntio sylw yn yr ail gyfnod o fis Mehefin i fis Medi.

1.2 Bydd Simon Dawson yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

1.3 Gwahoddir aelodau i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae'r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-06-08) yn:
https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018 (Saesneg yn unig)

**FSAW 18/06/07**
**I'w drafod**

**Adroddiad canol y rhaglen – Rheoleiddio Ein Dyfodol**

**Crynodeb Gweithredol**

1.1 Mae'r papur atodol, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 20 Mehefin, yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed ar draws Rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol ers mis Mehefin 2017 pan gyhoeddwyd ein papur 'Pam mae angen newid rheoleiddio bwyd a sut rydym ni am wneud hynny'. Mae'n disgrifio'r newidiadau allweddol a wneir i'r drefn reoleiddio mewn pryd i'r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae hefyd yn amlinellu elfennau eraill o'r system reoleiddio newydd yr ydym ni'n eu datblygu i'w cyflawni ar ôl ymadael â'r UE.

1.2 Bydd Catriona Stewart yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

1.3 Gwahoddir aelodau i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae'r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-06-06) yn:
https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018 (Saesneg yn unig)

**FSAW 18/06/08**
**I'w drafod**

**Strategaeth Ryngwladol yr ASB**

**Crynodeb Gweithredol**

1.1 Mae'r papur atodol, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 20 Mehefin, yn darparu diweddariad cyffredinol ar gyfeiriad ac amcanion allweddol gwaith rhyngwladol yr ASB.

1.2 Bydd Steve Cowperthwaite yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

1.3 Gwahoddir aelodau i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae'r Pwyllgor
3. yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-06-10) yn:
https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018 (Saesneg yn unig)

**FSAW 18/06/09**
**I'w drafod**

**Adroddiad yr Arolwg o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd**

**Crynodeb Gweithredol**

1.1 Mae'r papur atodol, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 20 Mehefin, yn adrodd ar ganfyddiadau adolygiad a gomisiynwyd i ystyried sut y gellid gwella a chryfhau cyfraniad y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd, gan sicrhau bod yr ASB yn gallu defnyddio potensial y Pwyllgorau hyn yn effeithiol a chael mwy o werth ohonynt, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn werth da am arian a pharhau i weithredu mewn ffordd gwbl agored a thryloyw.

1.2 Bydd Laura Eden a Zoe Bond yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

1.3 Gwahoddir aelodau i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae'r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-06-11) yn:
https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018 (Saesneg yn unig)

**FSAW 18/06/02**
**I'w drafod**

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar Faterion a Godwyd yng Nghyfarfod Diwethaf y Bwrdd**

**<u>Crynodeb Gweithredol</u>**

1.1 Mae'r adroddiad atodol yn rhoi crynodeb byr o'r materion a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Bwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2018 a materion trafodaethau allweddol yn ymwneud â chylch gorchwyl yr ASB yng Nghymru. Mae'r cofnodion llawn (ASB 18-06-01) o gyfarfod y Bwrdd ar gael ar wefan yr ASB yn: https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018 (Saesneg yn unig)

2.1 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:

1. **<u>nodi</u>** trafodaethau'r Bwrdd
2. **<u>gwahodd</u>** y Cadeirydd i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

**FSAW 18/06/02**
**I'w drafod**

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – Mehefin 2018**

**1. Adroddiad Cadeirydd y Bwrdd i gyfarfod Bwrdd Mawrth 2018**

1.1 Rhoddodd Cadeirydd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiadau, gan gynnwys cyfarfod y cafodd hi gyda Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Llywodraeth Cymr. Mynychais y cyfarfod hwn gyda Chadeirydd y Bwrdd ac roedd yn adeiladol wrth ein galluogi i rannu safbwyntiau ynghylch ymadael â'r UE, cynlluniau'r ASB a goblygiadau ymadael â'r UE ar gyfrifoldebau'r ASB yng Nghymru.

1.2 Yn y cyfarfod hwn, dywedodd Cadeirydd y Bwrdd fod adolygiad o ffatrïoedd torri cig wedi cael ei gyhoeddi, i'w gynnal ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban. Cyfrannodd y Bwrdd trwy ohebiaeth i gylch gorchwyl yr adolygiad a rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd y bydd ganddo'r cyfle cyntaf i gyfrannu at yr adolygiad ym mis Mehefin. Yn y cyfarfod hwn, dywedodd Cadeirydd y Bwrdd ei bod hi'n falch o ddweud bod yr ASB wedi sicrhau cefnogaeth y Gweinidog i symud ymlaen â cham dau yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.

**2. Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd**

2.1 Yng nghyfarfod Mawrth 2018, ystyriodd y Bwrdd y papurau canlynol:

- **Diweddariad ar Wyddoniaeth a Diweddariad gan Gadeirydd Cyngor Gwyddoniaeth yr ASB**

Roedd y papur cyntaf yn cynnwys barn bersonol yr Athro Guy Poppy, Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB, ar wyddoniaeth yr ASB a'r cyfleoedd a'r heriau sydd o'n blaenau. Roedd yr ail bapur yn cynnwys barn bersonol gan Gadeirydd Cyngor Gwyddoniaeth yr ASB ar bob un o dair ffrwd waith y Cyngor (gallu gwyddonol a sicrwydd, risg ac ansicrwydd a sganio'r gorwelion).

- **Llaeth Yfed Amrwd**
  Roedd y papur dros dro hwn yn darparu trosolwg o'r trefniadau cyfredol ar gyfer cyflwyno rheolaethau swyddogol ar laeth yfed amrwd. Roedd hefyd yn ystyried rhai o'r opsiynau y byddai angen eu harchwilio wrth ystyried trefniadau'r dyfodol.

- **Strategaeth Ryngwladol**
  Roedd y papur yn nodi'r gwaith a wneir ar yr adolygiad o strategaeth ryngwladol bresennol yr ASB a'r opsiynau ar gyfer cyflwyno dull mwy strategol a chydlynol o ymgysylltu rhyngwladol yn y dyfodol.

2.2 Gellir gweld y cofnodion drafft (ASB 18-06-01) o gyfarfod Bwrdd Mawrth 2018, sy'n darparu mwy o gyd-destun a chasgliadau'r Bwrdd ar y papurau uchod, yn: https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018 (Saesneg yn unig)

**3. Materion eraill**

3.1 Ar 16 Ebrill, bu cyfarfod rhwng Cadeirydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwr dros dro yng Nghymru, a minnau â Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, lle cawsom y cyfle i drafod nifer o faterion, gan ganolbwyntio'n bennaf ar faterion yn ymwneud ag ymadael â'r UE. Roedd hwn yn gyfarfod defnyddiol iawn.

3.2 Ar 11 Mai, fe wnes i gynnal cyfarfod busnes Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru caeedig. Bwriad y cyfarfod hwn oedd rhoi mewnbwn pellach, gan aelodau, i'r adolygiad o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Yn y cyfarfod hwn, mynegodd aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru sylwadau manylach ar gyfraniad ac effaith bresennol y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd ar wneud penderfyniadau gan Fwrdd yr ASB, trwy eu cyngor uniongyrchol a thrwy'r gefnogaeth y maent yn ei ddarparu ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Roedd y trafodaethau hyn yn llywio ac yn cyfrannu at gyfeiriad yr adolygiad, yn enwedig mewn perthynas â gwella cyfraniad y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd. Mae'r adolygiad hwn bellach yn datblygu'n dda ac rwy'n rhagweld y bydd yr adroddiad sy'n deillio ohono yn cael ei ystyried gan y Bwrdd yn y cyfarfod ar 20 Mehefin.

3.3 Ym mis Mai, fe wnes i hefyd gwrdd â Dave Thompson, Cadeirydd newydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru i drafod safbwyntiau Cymreig ar ymadael â'r UE a'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol.

3.4 Ers y cyfarfod diwethaf, rwyf wedi cymryd rhan blaenllaw yn y broses recriwtio i benodi dau aelod newydd i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Mae sifft cychwynnol wedi digwydd ac rwy'n gobeithio cyfweld ar 26 Mehefin. Yn

amodol ar gadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd unrhyw benodiadau newydd yn dechrau ym mis Awst/Medi.

Dr Ruth Hussey CB, OBE
Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru
Mehefin 2018

**Papur FSAW 18/06/03**
**I'w drafod**

**Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Dros Dro**

**Crynodeb Gweithredol**

1.1 Mae'r papur atodol yn cyfeirio at faterion a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yn y cyfarfod Bwrdd diwethaf a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018.
Mae' cofnodion llawn y cyfarfod bwrdd (ASB 18-06-01) ar gael ar wefan yr ASB: https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018 (Saesneg yn unig)
Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n berthnasol i Gymru ac yn sail i'r diweddariad i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

1.2 Bydd Cyfarwyddwr Dros Dro yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.

1.3 Gwahoddir aelodau i:

1. **Nodyn** trafodaeth y Bwrdd
2. **gwahodd** y Cyfarwyddwr Dros Dro i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

**Papur FSAW 18/06/03**
**I'w drafod**
**Diweddariad gan y Cyfarwyddwr**

**1. Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Bwrdd Agored 14 Mawrth 2018.**

1.1 Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 18/03/04) sydd ar gael drwy'r ddolen hon (Saesneg yn unig):
https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-march-2018

**2. Adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru ar Faterion yn ymwneud â Chymru**

Ymgysylltu'n allanol

2.1 Rwyf wedi bod yn rhan o'r cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers i'r Pwyllgor gyfarfod diwethaf ar 8 Mawrth 2018:

- 12 Ebrill – Cyfarfod cyswllt yr ASB/Llywodraeth Cymru
- 16 Ebrill – cyfarfod gyda Chadeirydd Bwrdd yr ASB, Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- 30 Ebrill – cyfarfod gyda'r Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru (WFFCU)
- 1 Mai – mynychu digwyddiad 'Dathlu Bwyd Cymru' Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru (NFU Wales)
- 2 Mai – cyfarfod Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd Llywodraeth Cymru
- 18 Mai – cyfarfod gyda Chadeirydd newydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
- 21 Mai – cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd
- 7 Mehefin – cyfarfod gyda Chyngor Ceredigion a WFFCU

<u>Ymadael â'r UE</u>

2.2 Dros y misoedd diwethaf, mae gwaith yr ASB yng Nghymru ar ymadael â'r UE wedi canolbwyntio ar fwyd wedi'i fewnforio wrth i ni aros i'r Bil Ymadael gael ei gymeradwyo er mwyn gallu dechrau ar y gwaith o ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Mae allforion yn her i Gymru gan nad oes ganddi'r cyfleusterau arolygu fel Arolygfeydd Ffîn neu Fannau Cyrraedd Dynodedig sydd yn ofynnol er mwyn gwneud gwiriadau ar fwyd risg uchel a fewnforir o drydydd gwledydd. Er mwyn i'r ASB yng Nghymru allu gweithio gyda phorthladdoedd a chynorthwyo lle gallai problemau neu beryglon posibl godi, mae'n hanfodol ein bod ni'n deall darlun masnachu bwyd presennol o'r UE trwy borthladdoedd y DU. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn ar gael yn yr un ffordd ag y mae ystadegau masnach wedi'u cyhoeddi gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) ar fewnforion trydydd gwledydd.

2.3 Er mwyn llywio ein gwaith yn y maes hwn, rydym ni wedi trefnu ymweliadau â nifer o borthladdoedd allweddol ar draws Cymru, i ddeall mwy am y cyfaint a'r math o fwyd sy'n dod drwy'r porthladdoedd hynny a pha adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol i gynnal gwiriadau cymesur sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn wedi cynnwys Caergybi, Abergwaun, Doc Penfro a Chasnewydd. Mae llawer o fwyd o Iwerddon yn mynd trwy borthladdoedd Cymru fel y prif bwynt mynediad i farchnad y DU. Mae'r holl ddata sydd gennym ni ar hyn o bryd wedi'i rannu â'n tîm Dadansoddeg ac mae'n helpu i lywio ein cynlluniau wrth gefn. Yn ogystal â'r ymweliadau i'r porthladdoedd, rydym ni hefyd wedi sicrhau cynrychiolaeth ar Grŵp Llywio Cynllunio Ffiniau Cymru sy'n dwyn ynghyd Llywodraeth Cymru, DExEU, CThEM, Defra a chynrychiolwyr diwydiant megis Stena Lines, Maes Awyr Caerdydd a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain.

<u>Atchwanegiadau bwyd</u>

2.4 Fel rhan o'r gwaith polisi ar atchwanegiadau bwyd, mae'r ASB yng Nghymru yn arwain ar ran yr ASB cyfan, ac rydym ni wedi cwblhau gwaith mewnwelediad gyda defnyddwyr a phecyn gorfodi. Comisiynwyd y gwaith mewnwelediad â defnyddwyr i hysbysu datblygiad gwaith yr ASB ar atchwanegiadau bwyd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gan gynnwys nodi unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg, ac i gefnogi gwaith gorfodi effeithiol sydd wedi'i dargedu gan Awdurdodau Lleol a'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Roedd y mewnwelediad yn cynnwys arolwg

defnyddwyr byr, grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl. Yn gyffredinol, canfu'r ymchwil fod defnyddwyr yn cymryd atchwanegiadau bwyd yn ddiogel ac yn prynu o fanwerthwyr prif ffrwd credadwy. Fodd bynnag, datgelodd hefyd ddefnydd o atchwanegiadau '*niche*' at ddibenion penodol megis colli pwysau neu faeth chwaraeon. Gan nad yw'r cynhyrchion '*niche*' yma ar gael mewn modd eang, mae llawer yn cael eu gwthio i brynu ar-lein; sy'n arwain at begwn eithafol y farchnad.

2.5 Rydym ni hefyd wedi cynhyrchu pecyn gorfodi i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynllunio ac ymgymryd ag arolygiadau o weithredwyr busnesau bwyd sy'n gwerthu atchwanegiadau bwyd. Mae'r pecyn yn nodi materion i'w hystyried, pwerau a throseddau perthnasol, a chamau i'w cymryd os darganfyddir cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio. Mae fersiynau gwahanol wedi'u cynhyrchu ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i adlewyrchu gwahanol ddeddfwriaeth a chyrff gorfodi, a fersiwn Gymraeg hefyd.

Bydd y gwaith mewnwelediad a'r pecyn cyfathrebu i ddefnyddwyr yn cael eu cyhoeddi yn fuan.

<u>Ymadael â'r UE: Arian ychwanegol</u>

2.6 Mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod yr ASB yng Nghymru, yn dilyn cynnig, wedi llwyddo i gael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Ymgyrch yr UE a fydd yn ein galluogi i gaffael adnoddau ychwanegol i gefnogi gwaith yn y dyfodol.

<u>Strategaeth Ymgysylltu</u>

2.7 Yn dilyn ymchwil a nododd nad oedd Aelodau'r Cynulliad yn gyfarwydd â gwaith yr ASB, rwyf wedi ymgymryd â'r gwaith o adnewyddu ein cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid. Y cam cyntaf yn hyn o beth fydd cyfathrebu cynnar i Aelodau'r Cynulliad gan dynnu sylw at ein rôl. Yna, rwyf yn bwriadu danfon cylchlythyr rheolaidd a fydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am faterion allweddol.

## 3. Bwrw Golwg Ymlaen

3.1 Rhwng nawr a chyfarfod agored nesaf y Pwyllgor ar 13 Medi, rwyf wedi gwneud yr ymrwymiadau canlynol sy'n berthnasol i'r ASB yng Nghymru:

- 19 Mehefin – Cyfarfod cyswllt yr ASB/Llywodraeth Cymru
- 19 Mehefin – Cyfarfod yr ASB/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- 19 Gorffennaf – Cyfarfod Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd Cymru
- 23 a 24 Gorffennaf – mynychu amryw gyfarfodydd a digwyddiadau yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru
- 16 Awst – Cyfarfod cyswllt yr ASB/Llywodraeth Cymru

Richard Bowen
Cyfarwyddwr Dros Dro, ASB yng Nghymru
Mehefin 2018